

Astudiaeth Achos

Cynllun Ceir Cymunedol Conwy

Mae Cynllun Ceir Cymunedol Conwy yn cael ei ddatblygu o ganlyniad uniongyrchol i angen a amlygwyd gan glwstwr o feddygfeydd teulu yng Nghonwy. Gyda chymaint o apwyntiadau gofal sylfaenol ac eilaidd yn cael eu colli - achosion sy'n cael eu hadnabod gan feddygon teulu fel 'Heb Fynychu', neu apwyntiadau 'DNA' - cysylltodd Rheolwyr y Meddygfeydd yn y clwstwr â Chefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC) er mwyn ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cynllun newydd i helpu cleifion i gyrraedd eu hapwyntiadau yn haws.

Cyfeiriodd Geraint Davies, Hwylusydd Iechyd a Lles CGGC, at Betws-y-coed fel enghraifft o rywle lle "nad yw trafndiaeth gyhoeddus yn bodoli braidd. Gyda dim ond un bus yr wythnos, nid oedd gan gleifion unrhyw opsiynau ar gyfer amseroedd apwyntiadau ac roedd yn rhaid i'r feddygfa leol gwblhau apwyntiadau o fewn awr er mwyn caniatáu i bobl ddal y bus adref." Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar y cleifion a'r feddygfa, gan orfodi pobl i ruthro trwy ymgynghoriadau a chreu oedi i gleifion eraill. Gyda'r dirwedd ymhlith y mwyaf gwledig a mynyddig yng Nghymru, y boblogaeth yn heneiddio â thros 25% o'r trigolion dros 65 oed a chyfraddau isel o berchnogaeth ceir preifat a chyllid ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus draddodiadol, mae angen dull arloesol i gynorthwyo cleifion i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu hapwyntiadau iechyd.

Amlygu'r angen

Er nad oes unrhyw ddata wedi'i gyhoeddi ar apwyntiadau gofal sylfaenol, wrth ddatblygu'r prosiect, canfu CGGC fod cleifion o Orllewin Conwy wedi colli tua 52,800 o apwyntiadau gofal eilaidd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2015-16, ac mae'r amcangyfrif o gost hynny tua £9.56m. Mae Rheolwyr y Meddygfeydd yn amcangyfrif bod dros 10% o'r apwyntiadau hyn wedi'u colli oherwydd diffyg opsiynau cludiant hwylus yn yr ardal.

Gan dynnu ar brofiadau cynllun ceir cymunedol arall a sefydlwyd yn ddiweddar a gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau lleol dan arweiniad gwirfoddolwyr, gwelodd y partneriaid fod ffactorau megis incwm isel, cyfyngiadau ar fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPT), anghenion symudedd ychwanegol a diffyg trafndiaeth gyhoeddus yn golygu bod trigolion yn ddibynnol iawn ar y teulu, ffrindiau a chymdogion i gyrraedd apwyntiadau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod pobl yn aml yn gwneud dewisiadau o ran yr help y maent yn gofyn

amdano, gan aberthu eu hiechyd meddwl o bosibl trwy beidio ymweld â ffrindiau er mwyn gallu cyrraedd apwyntiadau ysbyty rheolaidd.

Wrth ddatblygu'r prosiect, cynhaliodd CGGC gyfarfodydd gyda Rheolwyr y Meddygfeydd a grwpiau cymunedol, cawsant drafodaethau ag arweinwyr cymunedol a thrigolion, a buont yn ymgynghori â'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol ynghylch modelau cludiant cost-effeithiol ar gyfer cymunedau llai mewn ardaloedd gwledig. Roedd ymgysylltu ag ystod mor eang o randdeiliaid yn ymarfer amhrisiadwy wnaeth eu helpu i ddiffinio'r broblem (rhwystrau rhag cyrraedd gwasanaethau ac apwyntiadau meddygol, a chyfleusterau lleol gan gynnwys gwasanaethau iechyd a lles) ac ystyried gwahanol opsiynau cyn cytuno ar eu dewis o gynllun - y cynllun ceir cymunedol.

Datblygu'r ateb

Mae'r prosiect sydd wrthi'n datblygu yn ateb arloesol sy'n seiliedig ar wir anghenion, a bydd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r problemau sydd wedi'u hamlygu, ond bydd yn cael effaith lawer ehangach ar wardiau gwledig Conwy yn ogystal. Gan weithio mewn partneriaeth agos â phrosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru y CTA, meddygfeydd yn y clwstwr a'r cynlluniau gwirfoddol presennol, mae CGGC wedi sicrhau cyllid trwy Gronfa Gymunedol y Loteri a Sefydliad Steve Morgan i sefydlu cynllun ceir gwirfoddol a phrydlesu cerbyd hygyrch. Rhoddir blaenoriaeth i apwyntiadau iechyd i ddechrau ar sail 50/50 rhwng y ddwy feddygfa, ac wrth i'r gwasanaeth dyfu, bydd y partneriaid yn gallu cynorthwyo pobl i gyrraedd apwyntiadau lles eraill, gan wella symudedd trigolion sy'n teimlo'n ynysig trwy ddarparu cludiant fforddiadwy, hygyrch.

Mae gwirfoddoli yn rhan allweddol o'r prosiect - bydd cyfleoedd ar gyfer gyrrwyr gwirfoddol i'r cynllun ceir cymunedol yn ogystal â gyrrwyr gwirfoddol sy'n barod i ddefnyddio eu ceir eu hunain i ddarparu cludiant. Ymhlith y rolau gwirfoddol eraill, mae cyfeillion teithio i fynd gyda phobl y gall fod angen cefnogaeth arnynt ar eu teithiau oherwydd afiechyd, anabled, neu ddiffyg hyder; a llysgenhadon i helpu i hyrwyddo'r cynllun yn y pentrefi fel bod cymaint o bobl leol â phosibl yn gwybod am y gwasanaeth ac yn gallu ei ddefnyddio.

Bydd y prosiect yn cryfhau'r gymuned trwy ddarparu ystod ddiddorol o gyfleoedd gwirfoddoli ac adnodd cymunedol (y car cymunedol) fydd yn helpu pobl i gyrraedd y llefydd y maent am fynd iddynt, gan ddarparu gwasanaeth o ddrws i ddrws a fydd yn golygu y gall pobl gael mynediad at wasanaethau ni waeth beth fo'u hoedran na pha broblemau iechyd neu symudedd sydd ganddynt. Gan y bydd CGGC yn defnyddio'r prosiect i ganfod gwersi i'w dysgu a ffactorau sy'n allweddol i lwyddiant, maent yn bwriadu rhannu 'beth sy'n gweithio' gyda chymunedau gwledig eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

Fe wnaeth **Cynllun Ceir Cymunedol Conwy** recriwtio eu Cydlynnydd Prosiect newydd ym mis Gorffennaf 2019, a bydd y gwasanaeth yn lansio yn ystod yr hydref eleni.